



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (UK GDPR) ('y ddeddfwriaeth diogelu data'), mae'r hysbysiad hwn yn nodi'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'ch data personol a data sy'n gysylltiedig ag addysg y mae'n eu derbyn gan ysgolion a/neu awdurdodau lleol am blant a phobl ifanc.

Bydd yr wybodaeth yn yr hysbysiad hwn yn parhau i gael ei hadolygu er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau pellach. Os byddwn yn newid y ffordd rydym yn prosesu a/neu yn defnyddio eich data bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn adlewyrchu'r newidiadau hynny. Bydd y fersiwn diweddaraf ar gael ar y wefan. Dylai'r wybodaeth gyfrannu at hysbysiadau ehangach a gyhoeddir gan yr ysgolion, darparwyr y blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol. Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddarau ddiwethaf fis Mehefin 2022.

1. Cefndir

Mae **Llywodraeth Cymru** yn derbyn data personol ar blant a phobl ifanc yn uniongyrchol gan ysgolion, darparwyr blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol fel rhan o gasgliadau data statudol, a hynny drwy borth diogel ar gyfer trosglwyddo data ar-lein, fel a ganlyn:

- Casglu data ôl-16 (disgyblion ym Mlwyddyn 12 y Cwricwlwm Cenedlaethol ac uwch)
- Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Casglu data ar lefel disgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)
- Casglu Data Cenedlaethol (NDC)
- Casglu data presenoldeb (cynradd ac uwchradd)

Yn ogystal â'r rhain, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cael data ar ganlyniadau cymwysterau allanol a gymeradwywyd (e.e. dyfarniadau TGAU a Safon Uwch) gan gyrff dyfarnu (e.e. CBAC).

Ar ôl derbyn y data personol, mae Llywodraeth Cymru yn dod yn rheolwr data.

2. Pa ddata y mae Llywodraeth Cymru yn eu derbyn?

Mae data personol a data categori arbennig a gesglir am blant a phobl ifanc fel rhan o gasgliadau data statudol yn cynnwys y rhai a restrir yn y tabl canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt. I weld rhestr o eitemau data a gasglwyd fel rhan o'r casgliadau data ysgol statudol, ewch i [Atodiad 1](#).

- ✓ Data personol fel rhif unigryw, enw cyntaf, enw canol, cyfenw, cod post, dyddiad geni, rhyw, hunaniaeth genedlaethol, iaith, cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim, rhif ysgol, grŵp blwyddyn ysgol
- ✓ Data categori arbennig megis ethnigrwydd a gwybodaeth am unrhyw anghenion dysgu ychwanegol
- ✓ Data ar ganlyniadau asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol a chymwysterau cymeradwy (h.y. arholiadau cyhoeddus)
- ✓ Data o'r ysgol am eich cofnod addysg
- ✓ Data ar bresenoldeb, i gynnwys sesiynau a fynychwyd a rhesymau dros absenoldeb



3. Beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data?

Mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y sail gyfreithiol, fel y'i nodir yn Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007, wrth dderbyn y data.

Mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu data a dderbyniwyd yn yr ymarferion casglu data statudol o dan Erthygl 6(1)(e) o'r GDPR; prosesir y data yn unol â'n tasg gyhoeddus ac yn yr awdurdod swyddogol a freiniwyd ynom ni i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. Mae peth o'r data a ddaw i law Llywodraeth Cymru yn 'ddata categori arbennig' (ethnigrwydd ac anghenion dysgu ychwanegol yn yr achos hwn). Ar gyfer hyn, mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar Erthygl 9(2)(g) – caiff y data ei brosesu at ddibenion budd cyhoeddus sylweddol yn unol â gofynion rheoleiddiol.

4. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda'ch data?

Yng nghylch gwaith Llywodraeth Cymru fel y rheolwr data, defnyddir y data a ddaw i law at y dibenion isod. Mae'r dibenion hyn yn angenrheidiol er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei thasg gyhoeddus ac wrth arfer ei awdurdod swyddogol.

Dibenion statudol:

- ✓ At ddibenion perfformiad ysgol, rhennir data adnabyddadwy yn ôl gyda'r ysgol a/neu'r awdurdod lleol
- ✓ Ar gyfer paru a/neu gysylltu setiau data o gasgliadau data statudol, gan ddefnyddio data adnabyddadwy, er mwyn galluogi dadansoddiad ystadegol i lywio polisiau addysg a chymdeithasol ehangach

At ddibenion ymchwil a dadansoddi ystadegol (a gyflawnir mewn ffordd sy'n sicrhau na ellir adnabod plant a phobl ifanc unigol):

- ✓ Monitro perfformiad ac asesu ansawdd ein polisiau a'n gwasanaethau addysg fel y gellir eu gwella
- ✓ I helpu i fonitro a thargedu cyllid yn effeithiol
- ✓ At ddibenion dadansoddi ystadegol ac ymchwil a fydd yn helpu i lywio, dylanwadu a gwella polisi addysg ar gyfer pobl yng Nghymru
- ✓ Cysylltu â setiau data eraill, gan gynnwys setiau o ddata nad ydynt yn addysgol, er mwyn llywio polisiau addysg a chymdeithasol ehangach

Dibenion cyhoeddi (a gyflawnir mewn ffordd sy'n sicrhau na ellir adnabod plant a phobl ifanc unigol):

- ✓ At ddibenion cyhoeddi, sy'n cynnwys ystod o allbynnau ystadegol ar wefan Llywodraeth Cymru. Gellir gweld rhestr lawn o'r cyhoeddiadau ystadegol yn <https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil>
- ✓ Gwybodaeth ysgolion a gyhoeddir ar wefan [Fy Ysgol Leol](#)



- ✓ At ddibenion ymchwil yn ehangach nag addysg, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio technegau sy'n sicrhau bod y data yn ddienw cyn bod unrhyw ymchwil yn cael ei gynnal

5. Gyda phwy bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu eich gwybodaeth?

Bydd gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan **Lywodraeth Cymru** am blant a phobl ifanc yn cael ei rhannu, ar gais a lle ceir diben penodol, gyda sefydliadau fel y rhai sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant, lle y nodir hynny mewn rheoliadau a wneir o dan adran 537A o ddeddf Addysg 1996.

Dyma'r unigolion neu'r sefydliadau y bydd Llywodraeth Cymru **yn** rhannu eich gwybodaeth bersonol â nhw. Gweler [Atodiad 2](#) am fanylion ynghylch pwy a pham yr ydym yn rhannu eich data.

- ✓ Yr Awdurdod Lleol sy'n cynnal yr ysgol lle'r ydych neu yr oeddech wedi'ch cofrestru
- ✓ Swyddfa Prif Arolygydd ei Mawrhydi dros Addysg a hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)
- ✓ Gyrfa Cymru
- ✓ Cymwysterau Cymru
- ✓ Unrhyw gorff dyfarnu cymwysterau yng Nghymru a gydnabyddir gan Gymwysterau Cymru
- ✓ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- ✓ Yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau
- ✓ Adran Addysg Llywodraeth y DU
- ✓ Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS)
- ✓ Unrhyw bersonau sy'n cynnal ymchwil i gyraeddiadau addysgol disgyblion ac sydd angen gwybodaeth am ddisgyblion unigol at y diben hwnnw
- ✓ Coladwyr gwybodaeth sydd, at ddibenion swyddogaethau Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud ag addysg neu mewn cysylltiad â hwy, yn gyfrifol am goladu neu wirio gwybodaeth sy'n ymwneud â disgyblion

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi cytundeb rhannu data ffurfiol ar waith pan fydd eich data yn cael eu rhannu gyda thrydydd parti. Bydd Llywodraeth Cymru ond yn rhannu eich data at ddiben penodol ac am gyfnod cyfyngedig. Rhan o'r cytundebau fydd y bydd yn ofynnol i'r trydydd parti lofnodi cytundeb cyfrinachedd mewn perthynas â'ch data, i ddangos eu bod yn gweithredu gweithdrefnau diogelwch gwybodaeth boddhaol, mai dim ond mewn ffyrdd rhagnodedig y byddant yn defnyddio eich gwybodaeth ac y byddant yn dinistrio eu copïau o'ch data pan ddaw'r cytundeb â therfyn amser i ben. Rhaid i unrhyw ddadansoddiad a gynhyrchir ddilyn rheolau datgelu Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad oes modd adnabod unigolion. At ddibenion ymchwil yn ehangach nag addysg, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio technegau i wneud y data'n ddienw cyn bod unrhyw ymchwil yn cael ei gynnal.

6. Am ba hyd fyddwn ni'n cadw'ch data?



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Setiau Data	Cyfnod Cadw Data	Defnydd o'r Data
Casgliadau Data Statudol am Ysgolion	Cedwir eich data hyd nes y byddwch yn 25 mlwydd oed ac ar ôl hynny bydd eich data yn ddiennw	Mae hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ddadansoddi eich data ynghyd â gwybodaeth disgyblion eraill a chreu adroddiadau. Caiff yr adroddiadau hyn eu defnyddio i helpu i lywio, dylanwadu ar a gwella penderfyniadau polisi addysg, monitro perfformiad y gwasanaeth addysg yn ei gyfanrwydd a/neu ragweld gofynion ariannu yn y dyfodol
	Ar ôl i'ch data gael eu gwneud yn ddiennw, byddant yn unol â'r arferion gorau ac yn cael eu cadw am gyfnod hwy	Mae hyn at ddibenion dadansoddi ystadegol ac ymchwil yn unig

7. Eich hawliau o dan y GDPR

Mae gennych hawl i'r canlynol:

- ✓ cael gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn ei brosesu amdanoch chi
- ✓ ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gywiro gwallau yn y data
- ✓ o dan rai amgylchiadau, gwrthwynebu prosesu ar sail sy'n gysylltiedig â'ch sefyllfa benodol
- ✓ o dan rai amgylchiadau, cyfyngu ar brosesu
- ✓ cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o wybodaeth am y data y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw, a'u defnydd, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y ddeddfwriaeth diogelu data, cysylltwch â changen gwybodaeth a gwella ysgolion Llywodraeth Cymru yn y lle cyntaf a/neu'r swyddog diogelu data. Mae'r manylion fel a ganlyn:

**Y Gangen
Gwybodaeth a
Gwella
Ysgolion:**

Y Gyfarwyddiaeth
Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Swyddog
Diogelu data:**

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-
bost:

IMS@gov.cymru

Cyfeiriad e-
bost:

DataProtectionOfficer@gov.cymru

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH CYMRU
AR GYFER
Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION**

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:	Wycliffe House Water Lane Wilmslow Swydd Gaer SK9 5AF
Ffôn - llinell gymorth:	029 2067 8400 (llinell gymorth Cymru) neu 0303 123 1113 (llinell gymorth y DU)
Gwefan:	www.ico.gov.uk



**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH CYMRU
AR GYFER
Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION**

ATODIAD 1 – Eitemau Data a gasglwyd

Fel allwedd i'r isod, dyma'r casgliadau a restrwyd:

CYBLD	Casgliad data y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
EOTAS	Casgliad data Addysg Heblaw yn yr Ysgol ar lefel disgyblion
ATT. (P)	Casgliad data presenoldeb (cynradd)
ATT. (S)	Casgliad data presenoldeb (uwchradd)
NDC	Casgliad Data Cenedlaethol
P16	Casgliad Data ôl-16
WED	Cronfa Ddata Arholiadau Cymru

Enw'r eitem ddata	Disgrifiad	CYBLD	EOTAS	ATT. (P)	ATT. (S)	NDC	P16	WED
Rhif yr AALI	Cyfeirnod i nodi'r awdurdod lleol sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Bydd hyn yn helpu i grwpio'r data yn ôl awdurdod lleol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhif y sefydliad	Cyfeirnod i nodi'r ysgol. Bydd hyn yn helpu i grwpio'r data yn ôl ysgol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Enw'r ysgol	Enw'r ysgol	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfnod yr ysgol	I nodi cyfnod yr addysg a gynigir gan yr ysgol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhif yr ysgol	Cod unigryw a roddir i'r ysgol at ddibenion dadansoddiad ystadegol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
UKPRN	Cyfeirnod Darparwr y DU yr ysgol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhif ffôn yr ysgol	Rhif ffôn yr ysgol	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Y math o ysgol	Y math o addysg a gynigir gan yr ysgol	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>



**HYSBYSIAD PREIFATRUYDD LLYWODRAETH CYMRU
AR GYFER
Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION**

Enw'r eitem ddata	Disgrifiad	CYBLD	EOTAS	ATT. (P)	ATT. (S)	NDC	P16	WED
Prydau ysgol am ddim	Nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol a gafodd bryd ysgol am ddim ar ddiwrnod y cyfrifiad.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhif Unigryw'r Disgybl (UPN)	Nifer unigryw a ddyrennir i bob disgybl i hwyluso dadansoddiad ystadegol	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN)	Rhif ULN i bob disgybl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Rhif Unigryw blaenorol	Cofnod o hen RhUD pob disgybl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfenw	Cyfenw Cyfreithlon y Disgybl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Enw Cyntaf	Enw Cyntaf Cyfreithlon y Disgybl	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Enw(au) canol	Enw(au) canol y Disgybl	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Dyddiad geni	Dyddiad geni'r disgybl	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oedran	Oedran y disgybl ar ddiwrnod y cyfrifiad	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhyw	Rhyw y disgybl	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Hunaniaeth Genedlaethol y Disgybl	Hunaniaeth genedlaethol y disgybl	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Cod ethnig y disgybl	Ethnigrwydd y disgybl	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Ffynhonnell cod ethnig y disgybl	Cod i nodi pwy ddarparodd y data am gefndir ethnig.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cymhwyster disgyblion i gael prydau ysgol am ddim	I nodi a yw'r disgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwarchodaeth drosiannol disgyblion i gael prydau ysgol am ddim	I nodi'r a yw'r disgybl o dan warchodaeth drosiannol i gael prydau ysgol am ddim.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Saesneg fel iaith ychwanegol	I nodi'r disgyblion sy'n astudio Saesneg fel iaith ychwanegol	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Math o iaith	I adnabod math iaith y disgybl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cod iaith gyntaf	I adnabod iaith gyntaf y disgybl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>



**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH CYMRU
AR GYFER
Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION**

Enw'r eitem ddata	Disgrifiad	CYBLD	EOTAS	ATT. (P)	ATT. (S)	NDC	P16	WED
Ffynhonnell yr iaith	Cod i nodi pwy ddarparodd yr wybodaeth am iaith	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Statws cofrestru	I nodi statws cofrestru dilys y disgybl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiad derbyn i'r ysgol bresennol	I nodi dyddiad derbyn y disgybl i'r ysgol bresennol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dangosydd rhan amser	I nodi a yw'r disgybl yn mynychu'r ysgol yn rhan-amser.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dynodydd disgybl preswyl	I nodi a yw'r disgybl yn ddisgybl preswyl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Grŵp blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol y disgybl	Nodi grŵp blwyddyn y Cwricwlwm Cenedlaethol lle bu'r disgybl yn dysgu am y rhan fwyaf o'i amser, waeth beth fo'i oedran.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Enw dosbarth	I adnabod enw/rhif y dosbarth ar gyfer pob disgybl unigol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cod post cartref	Cod post cartref y disgybl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Darpariaeth AAA disgybl	Darpariaeth AAA y disgybl ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Math o AAA	I nodi holl anghenion arbennig disgybl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dulliau addysgu'r cwricwlwm	I nodi'r cymorth a ddarperir i'r disgybl yn y cwricwlwm ac yn y dulliau addysgu.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Grwpiau a chymorth	I nodi'r cymorth a ddarperir i'r disgybl yn unigol ac fel grŵp	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Adnoddau arbenigol	I nodi'r cymorth a ddarperir i'r disgybl mewn adnoddau arbenigol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyngor ac asesiad	I nodi'r cymorth a ddarperir i'r disgybl o ran cyngor ac asesiad.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhuglder disgyblion yn y Gymraeg	I nodi a yw'r disgybl yn rhugl yn y Gymraeg.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Siarad Cymraeg gartref	I nodi a yw'r disgybl yn siarad Cymraeg gartref.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ffynhonnell y Gymraeg	Cod i nodi pwy ddarparodd yr wybodaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION

Enw'r eitem ddata	Disgrifiad	CYBLD	EOTAS	ATT. (P)	ATT. (S)	NDC	P16	WED
Astudio'r Gymraeg yn yr ysgol	I nodi sut mae'r disgybl yn astudio Cymraeg yn yr ysgol.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Addysg cyfrwng Cymraeg	I nodi os yw'r disgybl yn astudio unrhyw bwnc heblaw Cymraeg (iaith 1af neu 2il iaith) drwy gyfrwng y Gymraeg.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiad dechrau'r gwaharddiad	I nodi'r dyddiad y digwyddodd y gwaharddiad.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rheswm dros y gwaharddiad	I nodi'r rheswm pam y gwaharddwyd y disgybl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Categori gwahardd	I nodi categori gwahardd cywir y disgybl.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Nifer y sesiynau a gollwyd	Nodi nifer y sesiynau (hanner diwrnodau) a gollwyd gan y disgybl oherwydd y gwaharddiad.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Categori ddarpariaeth	Bydd yr eitem ddata hon yn nodi categori'r ddarpariaeth ar gyfer pob disgybl. (EOTAS)	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oriau o ddarpariaeth	Mae'r eitem ddata hon yn nodi nifer yr oriau o ddarpariaeth a wnaed ar gyfer pob disgybl yn ystod wythnos casglu'r cyfrifiad. (EOTAS)	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Awdurdod Lleol a Sefydliad	Os yw'r disgybl wedi ymrestru mewn UCD neu wedi'i leoli mewn ysgol fel rhan o'r ddarpariaeth yn ystod wythnos y cyfrifiad, rhaid cynnwys rhif pedwar digid y sefydliad a rhif tri digid yr UCD neu'r ysgol. (EOTAS)	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Categori arall o ddarpariaeth	Os yw'r disgybl yn mynychu categori o ddarpariaeth a ddangosir fel ' arall ' yn ystod wythnos y cyfrifiad, rhaid cynnwys disgrifiad o gategori'r ddarpariaeth.	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dynodydd y Rhaglen	Dynodwr unigryw ar gyfer y rhaglen y mae'r disgybl yn ei dilyn yn y 6ed dosbarth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfeirnod y rhaglen	Cyfeirnod y rhaglen y mae'r disgybl yn ei dilyn yn y 6ed dosbarth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION

Enw'r eitem ddata	Disgrifiad	CYBLD	EOTAS	ATT. (P)	ATT. (S)	NDC	P16	WED
Dyddiad dechrau'r rhaglen	Dyddiad y dechreuodd y disgybl y rhaglen yn y 6ed dosbarth.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiad gorffen disgwylidig y rhaglen	Dyddiad y disgwylir i'r disgybl orffen y rhaglen yn y 6ed dosbarth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiad gorffen gwirioneddol y rhaglen	Y dyddiad y mae'r disgybl yn gorffen y rhaglen mewn gwirionedd yn y 6ed dosbarth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Statws cwblhau'r rhaglen	Statws cwblhau'r disgybl ar ddiwrnod y cyfrifiad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Oriau cyswllt dan arweiniad	Nifer yr oriau cyswllt dan arweiniad a gynlluniwyd a ddefnyddir i fonitro'r ddarpariaeth o fanyleb y rhaglen astudio ac a ddefnyddir i addasu gwerthoedd y rhaglen astudio.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Hyd y rhaglen	Hyd y rhaglen	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Blwyddyn y rhaglen	Blwyddyn y rhaglen	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhif Gweithgaredd Dysgu	I adnabod pob rhaglen astudio a gweithgaredd dysgu sy'n cael ei chyflawni gan ddisgybl.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
QWAD	Cyfeirnod unigryw ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu dilyn gan ddisgyblion 6ed dosbarth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Cod QAN	Cyfeirnod unigryw ar gyfer cymwysterau a gymeradwywyd gan Ofqual, a ysgwyddwyd gan ddisgyblion 6ed dosbarth.	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Prif radd (canlyniad)	Gradd cymhyswter a gafwyd gan y disgybl (ee A* - E neu 9-1)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Gradd ychwanegol	Gradd ychwanegol a gafwyd gan y disgybl.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Cyrff dyfarnu	Enw'r sefydliad sydd wedi dyfarnu'r cymhwyster (ee CBAC, BTEC)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Categori Gweithgaredd Dysgu	Sicrhau bod manylebau'r rhaglen astudio yn cael eu bodloni yn ôl cyfeiriadur y rhaglen astudio	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>



**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH CYMRU
AR GYFER
Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION**

Enw'r eitem ddata	Disgrifiad	CYBLD	EOTAS	ATT. (P)	ATT. (S)	NDC	P16	WED
Dyddiad Cychwyn Gweithgaredd Dysgu	I nodi dyddiad cychwyn y rhaglen astudio neu'r gweithgaredd dysgu ac i'w ddefnyddio gyda'r dyddiad diwedd i gyfrifo hyd y dysgu.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiad Gorffen Disgwyliedig Gweithgaredd Dysgu	Dyddiad gorffen disgwyliedig gweithgaredd dysgu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiad Gorffen Gwirioneddol Gweithgaredd Dysgu	I nodi dyddiad gorffen y rhaglen astudio neu'r gweithgaredd dysgu ac i'w ddefnyddio gyda'r dyddiad dechrau i gyfrifo hyd y dysgu.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dysgwr ag anawsterau/anabledd dysgu	Monitro dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu ac a ydynt yn dysgu ar wahân neu mewn prif ffrwd.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gweithgaredd Dysgu a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg	Monitro darpariaeth gweithgareddau dysgu ac, os cânt eu cyflwyno'n ddwyieithog, y model addysgu a fabwysiedir.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Y Darparwr Dysgu	I weld ble mae'r dysgu'n cael ei ddarparu a hyd a lled y trefniadau masnachfrait/is-gontractio/partneriaeth rhwng ysgolion a darparwyr dysgu eraill.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Statws Cwblhau	I nodi'r gweithgareddau dysgu hynny y mae disgyblion wedi cwblhau'r dysgu gofynnol yn llwyddiannus ar eu cyfer a'r gweithgareddau dysgu hynny y mae disgyblion wedi tynnu'n ôl neu wedi trosglwyddo ohonynt.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Sesiynau Posibl	Ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Sesiynau a fynychwyd	Dyma'r nifer o sesiynau hanner diwrnod y mae disgyblion wedi eu mynychu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Sesiynau Absenoldeb Awdurdodedig	Nifer y diwrnod o absenoldeb awdurdodedig ar gyfer pob disgybl	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Sesiynau Absenoldeb Anawdurdodedig	Dylai'r cyfanswm gynnwys pob absenoldeb anawdurdodedig a gofnodwyd ar gyfer y disgybl hwnnw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>



HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION

Enw'r eitem ddata	Disgrifiad	CYBLD	EOTAS	ATT. (P)	ATT. (S)	NDC	P16	WED
Sesiynau nad oes angen iddynt fod yn bresennol	Nifer y sesiynau hanner diwrnod lle na fu'n ofynnol i ddisgyblion fod yn yr ysgol.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cod Presenoldeb	Cod a ddefnyddir wrth gofnodi gwybodaeth am bresenoldeb pob disgybl mewn ysgolion	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfrif Sesiynau	Cyfrif nifer y sesiynau hanner diwrnod a ddefnyddir ar gyfer codau presenoldeb pob disgybl.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiad gadael	Dyddiad y gadawodd y disgybl yr ysgol bresennol.	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyfnod	Cyfnod (E.e. Cyfnod Sylfaen, CS)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Pwnc	Pwnc ee Mathemateg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dull	Dull asesu (asesiad athro)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Elfen	Elfen (pwnc neu darged cyrhaeddiad)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Canlyniad	Canlyniad, lefel cwricwlwm cenedlaethol a ddyfarnwyd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiad y Canlyniad	Dyddiad y Canlyniad, blwyddyn y canlyniad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Lleoliad	Lleoliad, a gafwyd y canlyniad yng Nghymru neu yn Lloegr	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>



ATODIAD 2 – rhannu eich data gyda sefydliadau eraill

Sefydliad	Diben
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol	<p>Darperir data i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn unol â swyddogaethau statudol y Swyddfa Ystadegau Gwladol a osodwyd yn Neddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007 (SRSA) a Deddf y Cyfrifiad 1920 ar gyfer cyhoeddi ystadegau ac ymchwil ystadegol.</p> <p>Cyhoeddi ystadegau cyfanredol sy'n ymwneud â'r economi, y boblogaeth a'r gymdeithas ar lefelau'r DU, Cymru a'r lefel leol. Bydd yr ystadegau hyn yn cael eu cyhoeddi mewn modd sy'n sicrhau nad yw'n bosibl adnabod unigolion. Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn defnyddio'r data i wneud gwaith ymchwil, neu'n sicrhau bod data dienw ar gael i ymchwilwyr cymeradwy (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf Economi Ddigidol), drwy eu hamgylchedd ymchwil diogel. Gall y prosiectau ymchwil hyn olygu cysylltu data â ffynonellau data eraill er mwyn helpu i ddeall y rhyngweithio rhwng y system addysg a materion eraill fel iechyd, lles neu'r economi. Unwaith eto, bydd yr ymchwil yn cael ei chynnal mewn modd sy'n cynnwys cynnal archwiliadau i sicrhau nad yw manylion adnabod yn cael eu datgelu gan ganlyniadau'r dadansoddiad.</p>
Cymwysterau Cymru	<p>Defnyddir data lefel disgyblion i ddadansoddi niferoedd dysgwyr ar lefelau cymhwyster a sector, er mwyn helpu i lywio adolygiadau sector o gymwysterau. https://www.qualificationswales.org/cymraeg/</p>
Gyrfa Cymru	<p>Rhoi cymorth i grwpiau penodol o unigolion sydd mewn perygl mawr o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. I gyflawni hyn, defnyddir data lefel disgyblion i baru/cysylltu â chofnodion cleientiaid presennol Gyrfa Cymru er mwyn penderfynu ar gyrchfan y disgyblion ar gyfer cynhyrchu ystadegau yn unig.</p> <p>I gael manylion am sut y bydd Gyrfa Cymru yn defnyddio eich gwybodaeth, trowch at wefan Gyrfa Cymru https://gyrfacymru.llyw.cymru/polisi-preifatrwydd.</p>
Awdurdodau Lleol	<p>Caiff data lefel disgyblion eu ddadansoddi a'u defnyddio gan awdurdodau lleol.</p>
Estyn	<p>Caiff data lefel disgyblion eu ddadansoddi a'i ddefnyddio gan arolygwyr Estyn fel rhan o'u harolygiadau o ddysgu a wneir mewn ysgolion. https://www.estyn.gov.wales/language</p>
Llywodraeth y DU – Yr Adran Addysg	<p>Caiff data lefel disgyblion eu defnyddio i gysylltu cofnodion disgyblion unigol â chofnodion cyflogaeth, enillion a budd-daliadau a ddelir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, er mwyn nodi a dadansoddi cyrchfannau dysgwyr i addysg bellach a/neu gyflogaeth, ar ôl iddynt</p>

**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD LLYWODRAETH
CYMRU
AR GYFER
Y CASGLIADAU DATA STATUDOL AM DDISGYBLION**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sefydliad	Diben
	adael dysgu. https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-work-pensions/about/personal-information-charter .
Sefydliadau sy'n gweithio dan gontract i Lywodraeth Cymru	Gallwn rannu eich data gyda sefydliadau sy'n gweithio dan gontract i ni os bydd nod y gwaith yn ein helpu i ddeall a gwella addysg a lles myfyrwyr.
Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS)	<p>Byddwn yn rhannu'r data a gasglwyd gennym amdanoch pan oeddech ym mlwyddyn 11 ac a oeddech yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd hyd at a chan gynnwys blwyddyn 11.</p> <p>Bydd data ar lefel disgyblion yn cael ei baru â dysgwyr sydd wedi cyflwyno cais UCAS, bydd UCAS wedyn yn rhannu'r data hwn gyda Higher Education Institutes (SAU) fel rhan o'r cais, gan roi gwybodaeth fwy cyd-destunol i brifysgolion.</p> <p>Defnyddir data disgybl i ddadansoddi niferoedd y dysgwyr yn ymwneud â chyfraddau dilyniant i addysg uwch. Bydd UCAS yn rhannu'r ymchwil ystadegol hwn gyda LIC, gan alluogi nodi unrhyw ymyriadau polisi gofynnol a hyrwyddo cyfranogiad ehangach mewn Addysg Uwch i ddysgwyr yng Nghymru. Bydd hyn yn adeiladu tuag at degwch mynediad i addysg i ddysgwyr o bob cefndir.</p> <p>Ar gyfer manylion am sut y bydd UCAS yn defnyddio'ch gwybodaeth, cyfeiriwch at wefan UCAS. https://www.ucas.com/ UCAS Hysbysiad Preifatrwydd</p>
Sefydliadau ymchwil	Gallwn rannu eich data gydag unrhyw bersonau sy'n cynnal ymchwil i gyrhaeddiad addysgol disgyblion ac sydd angen gwybodaeth disgyblion unigol at y diben hwnnw.